# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 23 Chwefror 2016

Amser: 09.03 - 10.06

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3388

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | William Powell AC (Cadeirydd)<br>Russell George AC<br>Joyce Watson AC |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | Steve George (Clerc)<br>Kath Thomas (Dirprwy Glerc)<br>Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol) |

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Cafwyd ymddiheuriadau gan Bethan Jenkins. Ni chafwyd dirprwy ar ei ran.

# 2 Deisebau newydd

## 2.1 P-04-672 Dod â defnydd o'r Gymraeg i ben

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunwyd i aros am ymateb y deisebydd cyn trafod y ddeiseb ymhellach.

## 2.2 P-04-673 Galw ar bob Plaid Wleidyddol Gymreig i Gynnig Popeth yn Ddwyieithog

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunwyd i aros am ymateb y deisebydd cyn trafod y ddeiseb ymhellach.

## 2.3 P-04-674 Dyfed, Dim Diolch

Datganodd William Powell y buddiant a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:
Mae ef a'r deisebydd yn ddarpar ymgeiswyr i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru ar gyfer rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru y Cynulliad.

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunwyd i ysgrifennu at y Gweinidog yn gofyn ei farn ar sylwadau pellach y deisebydd.

## 2.4 P-04-675 Talwch Gost y Dreth Ystafell Wely yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunwyd i aros am ymateb y deisebydd cyn trafod y ddeiseb ymhellach.

## 2.5 P-04-676 Creu Pencampwr yr Iaith Gymraeg mewn Cymunedau yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunwyd i aros am ymateb y deisebydd cyn trafod y ddeiseb ymhellach.

### 2.6 P-04-677 Mynediad Cyfartal i'r Iaith Gymraeg

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunwyd i ysgrifennu at y Gweinidog yn ceisio ei farn ar sylwadau pellach y deisebydd.

### 2.7 P-04-678 Offer i Helpu Pobl Eiddil

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunwyd i aros am ymateb y deisebydd cyn trafod y ddeiseb ymhellach.

### 2.8 P-04-679 Dileu'r Cymhwyster Bagloriaeth Cymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunwyd i aros am ymateb y deisebydd cyn trafod y ddeiseb ymhellach.

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1 P-04-658 Derwen Brimmon

- Datganodd William Powell y buddiant a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A: Mae wedi rhoi cyngor gweithdrefnol i'r deisebwyr.
- Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan y deisebydd a chytunwyd i ysgrifennu at Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth yn gofyn ei barn am sylwadau pellach y deisebydd ac yn benodol am:
  - y ffens atal moch daear a fydd o bosibl yn peryglu'r gwreiddiau;
  - y diffyg gwybodaeth ynghylch cofrestru'r goeden gyda Choed Cadw yn 2009; a
  - natur yr 'ychydig waith' sydd ei angen yn yr ardal diogelu gwreiddiau 15 metr.

### 3.2 P-04-565 Adfywio Hen Reilffyrdd Segur at ddibenion Hamdden

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan y Gweinidog a chytunwyd i gau'r ddeiseb.

### 3.3 P-04-416 Gwasanaethau Rheilffyrdd Gogledd-De

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth am y ddeiseb a chytunwyd i gau'r ddeiseb, gan nad yw'n ymddangos yn debygol bod modd gwneud cynnydd yn ei chylch yn y dyfodol agos.

### 3.4 P-04-486 Gweithredu Nawr Er Mwyn Achub Siopau'r Stryd Fawr

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y deisebydd a chytunwyd i gau'r ddeiseb. Wrth wneud hynny, cytunwyd hefyd i ysgrifennu at y Gweinidog yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf ar gyfer y deisebydd ynghylch y cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach.

### 3.5 P-04-363 Cynllun i Wella Canol Tref Abergwaun

Datganodd William Powell y buddiant a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:
Mae ef a'r deisebydd yn ddarpar ymgeiswyr i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru ar gyfer rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru y Cynulliad.

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i'w chau.

### 3.6 P-04-594 Apêl Cyngor Cymuned Cilmeri ynghylch y Gofeb i'r Tywysog Llywelyn

Datganodd William Powell y buddiant a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:
Mae wedi rhoi cyngor gweithdrefnol i'r deisebwyr.

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunwyd i ysgrifennu at y Gweinidog i hwyluso'r cyfarfod a gynigiwyd yn flaenorol rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a'r deisebwyr.

### 3.7 P-04-576 Caniatáu i Blant yng Nghymru Gael Gwyliau Teuluol yn Ystod Tymor yr Ysgol

Gweler y cam gweithredu y cytunwyd arno o dan eitem 3.8.

## 3.8 P-04-606 Sicrhau bod ysgolion yn defnyddio eu pwerau statudol o dan reoliad 7 o Reoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010 heb unrhyw ymyrraeth neu ragfarn.

Datganodd William Powell y buddiant a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:
Mae'n llywodraethwr ysgol.

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i gadw golwg ar y ddeiseb i ganiatáu i'r Pwyllgor Deisebau olynol ystyried a fydd angen cymryd unrhyw gamau pellach bryd hynny.

## 3.9 P-04-522 Asbestos mewn Ysgolion

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau a chytunwyd i aros am ymateb mwy sylweddol gan y deisebydd.

## 3.10 P-04-603 Helpu babanod sy’n cael eu geni ar ôl 22 wythnos i oroesi

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan y Prif Swyddog Meddygol a chytunwyd i gau’r ddeiseb, o ystyried cyfraniad y deisebydd yn natblygiad y canllawiau wedi’u diweddaru ar y mater, a’r ffaith bod y ddeiseb wedi helpu i sicrhau bod y materion anodd a sensitif iawn a godwyd gan y deisebydd yn cael sylw.

## 3.11 P-04-456 Dementia - Gallai hyn ddigwydd i chi

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y deisebydd a chytunwyd i gau’r ddeiseb.  Wrth wneud hynny, diolchodd yr Aelodau i'r deisebydd am gyflwyno'r ddeiseb ac fe hysbyswyd y deisebydd fod modd cyflwyno deiseb arall yn y dyfodol, pe dymunai.

## 3.12 P-04-452 Hawliau Cyfartal i Bobl Ifanc Tiwb-borthedig

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan y deisebydd, a chan iddynt deimlo na allent wneud rhagor i fynd â'r mater yn ei flaen, cytunwyd i gau'r ddeiseb.  Wrth wneud hynny, diolchodd yr Aelodau i'r deisebydd am gyflwyno'r ddeiseb ac am eu helpu i ddeall y materion sy'n gysylltiedig â'r ddeiseb.

### 3.13 P-04-424: Cadw gwasanaethau yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan y deisebydd, a chan iddynt deimlo na allent wneud rhagor i fynd â'r ddeiseb yn ei blaen, cytunwyd i gau'r ddeiseb.

### 3.14 P-04-624 Caniatáu i ofalwyr maeth gofrestru gyda mwy nag un awdurdod lleol

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y deisebydd a chytunwyd i gau'r ddeiseb. Wrth wneud hynny, cytunwyd i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn iddo a yw wedi cael cyngor gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ar y mater ac, os felly, i adael i'r Pwyllgor wybod y canlyniad.

### 3.15 P-04-605 Achub Ffordd Goedwig Cwmcarn Rhag Cael ei Chau am Gyfnod Amhenodol neu'n Barhaol

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y deisebydd ac, yn unol â dymuniad y deisebydd, cytunwyd i gau'r ddeiseb.

### 3.16 P-04-343 Atal dinistrio mwynderau ar dir comin

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan y deisebydd, a chan iddynt deimlo na allent wneud rhagor i fynd â'r ddeiseb yn ei blaen, cytunwyd i gau'r ddeiseb.

## 4 Deisebau y cynigir y dylid eu cau

Trafododd y Pwyllgor y papur a chytunwyd i gau'r deisebau a nodir ar y papur, ac eithrio P-04-617 Stopiwch y Trosglwyddo Dilyffethair o Lyfrgelloedd Cyhoeddus i'r Sector Gwirfoddol.